


**Adroddiad
Blynyddol y
Llywodraethwyr i
Rieni**



2019 ~ 2020

Adroddiad y Llywodraethwyr

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,

Braint a phleser yw eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wrth gyflwyno i'ch sylw caredig, yr adroddiad hwn o weithgaredd yr ysgol am y flwyddyn a aeth heibio. Bu'r chwe mis cyntaf yn llawn prysurdeb a gweithgarwch ond daeth newid syfrdanol i fywyd yr ysgol ym mis Mawrth 2020 a esgorodd ar gyfnod eithriadol o heriol i'r staff a'r disgyblion o ganlyniad i effeithiau Cofid-19.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob aelod o staff am eu hymroddiad llwyr i bob agwedd o fywyd yr ysgol a hynny o dan amgylchiadau anodd iawn eleni. Bu'n gyfnod o addasu sylweddol a throedio i dir newydd anghyfarwydd. Heb eu gwaith diflino hwy fe fyddai bywyd academaidd ac allgyrsiol y disgyblion dipyn tlotach. Rwy'n siŵr y cytunwch i'r disgyblion dderbyn yr addysg orau bosib o dan amgylchiadau anodd, ac hefyd gofal bugeiliol gofalus iawn. Gwn bod gwerthfawrogiad mawr i'r gohebu cyson a fu rhwng yr ysgol a'r teuluoedd dros y cyfnod clo. Bu nifer o'r staff yn cynorthwyo hefyd gyda'r Hybiau yn ystod y cyfnod clo yn ogystal â darparu gwersi a bugeilio disgyblion Bro Myrddin. Chwaraeodd yr ysgol gyfan ei rhan yn llawn gan gyfrannu'n helaeth i bob agwedd o fywyd addysg y Sir yn ystod y cyfnod anodd a dryslyd hwn.

Diolch arbennig i'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain am lywio'r ysgol drwy flwyddyn unigryw o addysg, a hynny o dan amgylchiadau anodd a rhwystredig iawn ar adegau. Golygodd hyn oll oriau maith o waith ychwanegol a hynny yn aml yn ystod gwyliau ysgol. Dylasem fod yn falch iawn ohonynt. Diolch hefyd i staff gweinyddol yr ysgol am eu gwaith trylwyr ac i bawb a fu'n cynorthwyo i baratoi'r ysgol ar gyfer ail-agor fel eich bod chi, y rhieni yn gwbl dawl eich meddwl bod y gofal gorau posib yn cael ei ddarparu mewn ffurf offer hylendid a systemau a fydd yn sicrhau cadw pellter cymdeithasol, i gadw eich plentyn/plant yn ddiogel.

Yn ogystal â chanmol y staff, rhaid canmol y disgyblion hefyd am eu llwyddiannau amrywiol, ac am ymateb mor gadarnhaol i'r holl gyfleodd sy'n cael eu cynnig iddynt. Ni fu'r flwyddyn yn hawdd iddynt yn enwedig wedi iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu ffrindiau dros gyfnod y cloi mawr. Diolch arbennig iddynt am eu hymateb i'r hyn a ddarparwyd ar eu cyfer. Diolch hefyd am iddynt ymddwyn yn synhwyrol wrth ddychwelyd i'r ysgol ac ufuddhau i'r rheoliadau newydd. Mae ein disgyblion yn ein llenwi a rhyfeddod a balchder yn gyson.

Mae'n ddyletswydd arnaf hefyd i ddiolch i chi, rieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth i'r bobl ifanc ac i'r ysgol. Ni fu'r flwyddyn ddiwethaf yn hawdd i chwithau chwaith. Gwn bod llawer o ofid wedi dod i rhan nifer o deuluoedd Bro Myrddin o ganlyniad i'r cyfnod clo. Nid tasg hawdd yw magu ieuenctid yn yr oes hon gan bod y disgwiliadau mor uchel, a'r pwysau ar eu hysgwyddau o amryw gyfeiriadau yn medru bod yn drwm iawn ar adegau, ond gwyddom fel ysgol, wrth gyd-weithio â chi'r rhieni a gwarcheidwaid, bod modd, gyda'n gilydd, i ni arwain ac annog y disgyblion i dyfu'n oedolion ifanc, boneddigaidd ac aeddfed, gan osod y sail addysgol orau posib ar eu cyfer.

Rydym yn ffodus iawn o gefnogaeth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae eu gwaith yn allweddol i'r ysgol a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant iddynt am eu gwaith. Gwaetha'r modd bu'n rhaid gohirio nifer o'r gweithgareddau a drefnwyd oherwydd y cyfnod clo, ond mae ein diolch yr un mor ddiffuant, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio eto yn y dyfodol agos gan fwynhau cyfleoedd i gymdeithasu, a chodi arian ar gyfer addysg y disgyblion.

Diolch hefyd i'm cyd-lywodraethwyr am eu cyfraniad amhrisiadwy i fywyd yr ysgol. Diolch am eu ffyddlondeb i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithiol. Mae pob llywodraethwr yn ei hystyried hi'n frainc o gael bod yn rhan o deulu Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac yn ymfalchio yn ei holl llwyddiannau ac yn y modd y mae wedi wynebu'r her dros y misoedd diwethaf.

Edrychwn ymlaen at barhau ac adeiladu eto i'r dyfodol ar y seiliau cadarn a osodir yn barhaus gan Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Dymunwn yn dda i'r staff a'r disgyblion wrth gamu ymlaen i mewn i ddryswch y cyfnod nesaf. Addunedwn i fod yn gefn iddynt bob amser.

Diolch am eich amser

Yn gywir

Y Parchg Beti Wyn James BD (Cadeirydd y Corff Llywodraethol)

Adroddiad y Pennaeth

Dyma flwyddyn na welwyd ei thebyg erioed o'r blaen yn sicr. Roedd pethau'n mynd ymlaen fel arfer tan diwedd mis Mawrth ac yna fe ddaeth y cyfan i stop. Rheolwyd ein bywydau ar ôl hynny gan y pandemig ac rydym yn dal yn ei grafangau wyth mis yn ddiweddarach. Dysgwyd llawer o sgiliau newydd yn ystod y cyfnod a fe ddatblygwyd gwynnwch arbennig yn ein staff, ein disgyblion a'n rhieni.

O ran canlyniadau arholiadau bu'n flwyddyn arbennig o heriol. Er bod y disgyblion wedi paratoi'n ddiwyd ar gyfer eu harholiadau allanol ni welwyd yr arholiadau hynny. Bu'r cyfnod canlyniadau yn gyfnod cythryblus iawn ond fe welwyd goleuni y tu draw i'r twnnel yn y diwedd a derbyniodd pawb eu graddau haeddiannol yn y pendraw.

Wythnos cyn y cyfnod clo bum yn ffodus iawn o gynnal cyngerdd Gŵyl Ddewi llwyddiannus yng nghwmni y Tri Tenor a chorau'r ysgol. Roedd y Lyric dan ei sang o rieni a chyfeillion a chafwyd gwledd o gerddoriaeth. Bu llawer o lwyddiannau hefyd a gofnodwyd ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter, Facebook ac Instagram. Byddwch hefyd yn gweld rhestr o lwyddiannau a digwyddiadau fel rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn falch o allu adrodd ar ystod eang o gyflawniadau a sicrhawyd gan ein disgyblion a'n staff talentog.

Bu'r cydweithio dros y cyfnod clo yn aruthrol gyda chyfathrebu dyddiol rhwng yr ysgol a'r rhieni a'r staff. Cafwyd llwyddiannau hyd yn oed yn ystod y cyfnod hwnnw gyda'r Eisteddfod T, côr rhithiol y staff a hefyd gwaith y pwyllgor dyngarol. Bydd pawb, yn sicr, yn cofio Her yr Arfordir i'r Arwyr pan gydweithiodd staff a disgyblion i godi swm sylweddol o bron i £2,500 i ysbyty Glangwili.

Ein nod yn flynyddol yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. I sicrhau hyn mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Rydym yn cynllunio i gryfhau llais y Cyngor Ysgol trwy wella ein cynghorau blwyddyn gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddosberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac rydym yn diweddarau ein gwefan a'n cyfyngau cymdeithasol yn ddyddiol i sicrhau defnyddioldeb. Yn sicr mae ein gwefan newydd yn fwy hylaw ac yn rhoi holl fanylion diweddar yr ysgol. Mae ein taith ddigidol yn datblygu ac rydym yn edrych ymlaen ar gyfer cydweithio gyda arweinwyr digidol o blith y disgyblion yn y flwyddyn academaidd nesaf.

I gloi'r adroddiad hoffem ddiolch yn arbennig i'r Llywodraethwyr sy'n rhoi yn ddiflino o'u hamser i fynychu pwyllgorau amrywiol yn rheolaidd er mwyn trafod polisiau a gweithgareddau'r ysgol. Hoffem ddiolch hefyd, ar eu hymddeoliad, i ddau aelod o staff a roddodd rhyngddynt 62 o flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol – Miss Zelda Williams ein Pennaeth Cynorthwyol a Mr Gwyn Jones, Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern.

Diolch arbennig hefyd i'r holl staff ac i chithau'r rhieni.

Dr Llinos Jones
Pennaeth

Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2015

A1. Codi safonau cyflawniad y bechgyn

Mae codi safonau cyflawniad y bechgyn yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol ers 2015. Trwyddi draw, mae'r cynnydd ym mherfformiad y bechgyn wedi bod yn dda iawn yn y ddau gyfnod allweddol, gan gynnwys pob un o'r dangosyddion perfformiad yn CA4. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi lleihau yn sylweddol yn y mwyafrif o'r dangosyddion.

A2. Cryfhau a chysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a rhannu'r arferion gorau

Mae Cynllun Datblygu'r ysgol ers 2015 yn blaenoriaethu'r argymhelliad hwn ac eisoes mae cynlluniau manwl ar y gweill. Mae gwaith y Gweithgor Addysgu a Dysgu wedi datblygu'n aruthrol ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd clir yn ansawdd yr addysgu.

A3. Datblygu'r defnydd a dealltwriaeth o ddata ymysg rheolwyr a llywodraethwyr

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a gosodwyd targedau pendant. Crëwyd cyfres o ddogfennau data pwrpasol er mwyn gwella ymwybyddiaeth athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr parthed data perfformiad yr ysgol. Yn ogystal â'r cymariaethau arferol – teulu data'r llywodraeth, grŵp meincnodi pryddau ysgol am ddim (PYD) a chyfartaledd yr ALL a Chymru – mae'r dadansoddiadau yn cynnwys cymharu perfformiad yr ysgol (dros gyfnod o bedair blynedd) yn erbyn ysgolion gyda'r canrannau PYD isaf. Maent, hefyd, yn tynnu sylw at safle'r ysgol mewn ystod o ddangosyddion ac mewn ystod eang o ffyrdd, gan gynnwys Llinell Atchwel ERW a Llywodraeth Cymru. Darparwyd hyfforddiant mewnol parhaol ar gyfer athrawon, rheolwyr canol a llywodraethwyr ac o ganlyniad, mae ymwybyddiaeth rheolwyr a llywodraethwyr yr ysgol o ddata perfformiad ysgolion yn gyffredinol, a sefyllfa'r ysgol yn benodol, wedi gwella'n sylweddol. Ers 2016 mae hynny yn cynnwys ymwybyddiaeth Penaethiaid adrannau o bwysigrwydd canlyniadau lefel UG/Uwch a thrwy hynny, felly, ein defnydd o wybodaeth data ALPS.

A4. Miniogi'r cysylltiad rhwng prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

Bu'r argymhelliad yn un o flaenoriaethau Cynllun Datblygu 2016-17 a ffurfiwyd Cynllun Datblygu Ysgol a Chynllun Datblygu Adran newydd sy'n gosod seiliau cadarn i'w thargedau. Mae'r targedau hyn hefyd yn cael eu hamlygu yn hunanarfarniad yr ysgol ac mae cyswllt pendant iawn rhwng y CDY a'r hunanarfarniad sydd hefyd ar ei newydd wedd.

Aelodau'r Corff Llywodraethol 2019-20

Cadeirydd: Parchedig Beti Wyn James

Is-gadeirydd: Mrs Anne Loughran

Clerc: Miss Siân Thomas, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, swyddfa@bromyrdin.org

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol:

Pennaeth

6 Rhiant Llywodraethwr

5 Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol

2 Gynrychiolydd Athrawon

1 Cynrychiolydd Staff

5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol

Rhieni Llywodraethwyr (cyfnod yn dod i ben)

Mr Mydrian Harries (09.11.20)
 Mrs Sian Davies (09.11.20)
 Ms Catrin James (20.11.21)
 Mrs Nerys Defis (07.10.22)
 Mr Nigel Cooke (04.10.23)
 Mr Heulyn Roderick (17.05.24)

Llywodraethwyr Cymunedol (cyfnod yn dod i ben)

Mr Elfed Davies (18.01.21)
 Mrs Anne Loughran (18.01.21)
 Mrs Luned Thomas (29.03.21)
 Parchedig Beti Wyn James (29.03.21)
 Mrs Angharad Jones-Leefe (25.03.22)

Cynrychiolwyr Athrawon (cyfnod yn dod i ben)

Mr Aled Williams (31.08.21)
 Mr Steffan Davies (01.09.23)

Cynrychiolwr Staff (cyfnod yn dod i ben)

Mrs Lonwen Bowen (26.05.23)

Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (cyfnod yn dod i ben)

Parchedig Tom Defis (28.01.23)
 Cynghorydd Cefin Campbell (28.01.23)
 Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths (25.09.20)
 Cynghorydd Mair Stephens (25.09.20)
 Mr Arwel Lloyd (09.04.21)

Adroddiad ar flaenoriaethau 2019-20

Blaenoriaeth strategol YBM	Camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol
Safonau <ul style="list-style-type: none"> Codi safonau mewn pynciau a meysydd penodol Gwella sgiliau llythrennedd y disgyblion (bechgyn yn enwedig) 	<ul style="list-style-type: none"> Codi safonau adrannau unigol sydd wedi eu hadnabod yn yr hunanarfarniadau adrannol ac ymweliad Cefnogi ERW 1. Gwella cyngor i ddisgyblion wrth ddewis pynciau a chryfhau cysylltiad Hwb Seren Treialu system tracio cynnydd newydd trwy fabwysiadu system targedau cyfunradd Gwersi ymyrraeth llythrennedd i barhau Parhau gyda chynlluniau llythrennedd adrannol wrth ddiwygio'r cwricwlwm newydd o ran maes allweddol 3. Sicrhau bod adrannau CA5 yn datblygu sgiliau llafaredd y disgyblion
Lles ac agweddau at ddysgu <ul style="list-style-type: none"> Cysoni safonau uchel ymddygiad Datblygu cyfloedd Llais y Disgybl 	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddi staff blwyddyn 7 gyda chynllun newydd o ran ymarfer adferol Hyfforddi staff a phenaethiaid blwyddyn i wneud gwell defnydd o ddulliau cofnodi a monitro ymddygiad Mynd i'r afael â rhai carfannau o ddisgyblion i wella ymddygiad Ymchwil gweithredol ar y defnydd o SIMS fel offeryn adnabod problemau Gweithgor Dysgu ac Addysgu i greu model er mwyn cysoni'r safonau ymddygiad cadarnhaol yn dilyn cyfnod o ymchwil gweithredol Addas protocol ymateb i bresenoldeb isel unigolion er mwyn cwrdd â gofynion newydd y Sir.
Addysgu a phrofiadau dysgu <ul style="list-style-type: none"> Paratoi ar gyfer Cwricwlwm i Gymru Datblygu Cymreictod 	<ul style="list-style-type: none"> Taith ddysgu CA3 i sicrhau ansawdd yr addysgeg Cyfarfodydd MDaPh yn cael eu clustnodi ar galendr yr ysgol ac i'w cydlynu gan aelodau o'r UDA Treialu cynlluniau newydd i fl.7 – Addysg Ariannol, cymorth cyntaf a bwyta'n iach. Creu grwpiau ffocws i dderbyn adborth am y cynlluniau Diwygio darpariaeth Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol a DT Cynnal cynhadledd Cynradd / Uwchradd ar gwricwlwm 2022 Cynnal HMS Uwchradd ar y MDaPh Rhoi cyfloedd i athrawon i arsylwi gwersi o fewn eu MDaPh Sicrhau hyfforddiant priodol ar y cwricwlwm newydd i bawb Datblygu cynllun trawsgwricwlaidd ar sioe yr ysgol Rhoi cyfloedd priodol i unigolion a grwpiau i wneud ymchwil gweithredol ar y 4 diben a'r MDaPh Cynnal gweithgareddau hybu Cymreictod Cynnal cynhadledd Addysg Gymraeg i holl staff ysgolion y clwstwr Dadansoddi ac ymateb i'r adroddiad a dderbynyr wrth ESTYN yn dilyn adolygiad ar y Gymraeg yn Ionawr 2020 Adolygu cynllun gweithredu Siarter Iaith yr ysgol.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad <ul style="list-style-type: none"> • Y Bil ADY • Hyrwyddo dealltwriaeth o heriau iechyd meddwl a datblygu meddyliau iach 	<ul style="list-style-type: none"> • Taith ddysgu ADY i fonitro'r ddarpariaeth bresennol • Adolygu'r defnydd o CCD's ac amseriad rhaglenni ymyrraeth • Hyfforddi ac uwchsgilio staff ysgol gyfan er mwyn adnabod disgyblion • Cyflwyno y proffil un tudalen i bob disgybl bl.7/8 • Defnyddio offer ACU fel rhan o gyfarfodydd yr ysgol • Monitro'r ddarpariaeth iechyd a Lles bl.7/8 trwy ymweliadau a chyfweliadau grwpiau ffocws staff a disgyblion • Datblygu mewnbwn y gweithgor lles staff i wyntyllu syniadau ar ddatblygu meddylgarwch a lleihau straen • Creu cynllun gweithredu i ymateb i'r holiadur iechyd a Lles Cenedlaethol • Dadansoddi data holiadur ysgol gyfan SHRN er mwyn sicrhau ymyrraeth wedi ei dargedu.
Arweinyddiaeth a Rheolaeth <ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i heriau ariannol • Datblygu'r ysgol fel Sefydliad sy'n Dysgu • Datblygu prosesau hunanarfarnu yr ysgol gyfan 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio cynllun busnes i ymateb i'r diffyg trwy gydweithrediad gyda'r llywodraethwyr • Sicrhau hyfforddiant priodol i bob aelod o staff • Datblygu arweinyddiaeth o fewn yr ysgol • Mapio cyfrifoldebau llywodraethwyr ar draws y tymor • Addasu hunanarfarniad yr ysgol a'r adrannau a chreu CDY a CDA newydd • Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer pob adran sy'n dangos bod angen gwelliant o ran safonau.

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwerau y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

8:55-9:05	Cofrestru		10:20-10:35	Egwyl		12:35-1:35	Cinio
9:05-9:20	Gwasanaeth		10:35-11:35	Gwers 2		1:35-2:35	Gwers 4
9:20-10:20	Gwers 1		11:35-12:35	Gwers 3		2:35-3:35	Gwers 5

Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2020-2021

Tymor	Dechrau	Hanner Tymor		Diwedd
		Dechrau	Diwedd	
Hydref 2020	1 Medi	26 Hydref	30 Hydref	18 Rhagfyr
Gwanwyn 2021	5 Ionawr	15 Chwefror	19 Chwefror	26 Mawrth
Haf 2021	12 Ebrill	31 Mai	4 Mehefin	16 Gorffennaf

Dyddiau HMS – Dydd Llun Rhagfyr 21; Dydd Mawrth Rhagfyr 22; Dydd Llun, Ionawr 4; Dydd Gwener, Chwefror 12; Dydd Gwener Mawrth 26; Dydd Llun, Gorffennaf 5.

Penodiadau staff newydd ar gyfer Medi 2019:

Miss Ceri Griffiths – Cynorthwydd Addysgu

Mrs Judith Harris – Cynorthwydd Addysgu

Miss Anona Williams – Cynorthwydd Addysgu

Mr Christopher Lacey – Arweinydd Pwnc TGCh a Chydlynnydd Fframwaith Ddigidol

Mrs Ann-Marie Lewis – Athrawes Gymraeg/Drama

Mrs Lois Slaymaker-Jones – Athrawes Gymraeg

Mrs Paula Davies – Athrawes Bioleg/Gwyddoniaeth

Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd, ein swyddog 5x60 a'n swyddog ieuencid er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol. Mae'n disgyblion yn cyfrannu cryn dipyn yn y gymuned trwy gynnal nosweithiau arbennig a chynorthwyo yma a thraw.

Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwas Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chynghor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Yn flynyddol daw lluo o siaradwyr gwadd i'r ysgol i gynnig cymorth gan gynnwys cynrychiolwyr o'r banciau lleol, busnesau lleol a cholegau.

Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol.

Yn anffodus, ers diwedd Mawrth, nid yw wedi bod yn bosibl i barhau gyda'r trefniadau arferol.

Adroddiad blynyddol – Cyllid

Mae gan y Llywodraethwyr Is-bwyllgor Cyllid ac Adeiladau sy'n cyfarfod unwaith y tymor i drafod y pynciau penodol hyn. Yn y flwyddyn 2019-20, yn dilyn y rhagolygon yn yr adroddiad llynedd roedd yr ysgol mewn diffyg. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2020-21 yn llawer mwy cefnogol.

Datganiad Ariannol yr ysgol 2019/20

Gwariant		Cyllideb	Gwirioneddol
	Cyflogau	3,561,133	3,513,149
	Adeiladau	372,696	349,792
	Cyflenwadau a Gwasanaethau	350,702	443,735
		4,284,531	4,306,676
Incwm		Cyllideb	Gwirioneddol
	Derbynebaw Cwsmeriaid	89,929	98,715
	Grantiau'r Llywodraeth	4,184,959	4,195,251
	Grantiau eraill	29,058	91,812
		4,303,946	4,385,778
Gwarged / Diffyg		19,414	81,024

Perfformiad Disgyblion

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19, i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar berfformiad.

Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19 i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar berfformiad.

Cyrchfannau disgyblion

Disgyblion	Bl.11		Bl.12		Bl.13	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
	135		90		93	
Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon	100	74.6	89	98.9		
Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall	2	1.5				
Parhau mewn addysg llawn amser – coleg	23	17.2			7	7.5
Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch					66	71
Blwyddyn allan					10	10.8
Parhau mewn addysg rhan amser						
Hyfforddiant ieuencid gan gynnwys prentisiaeth	5	3.7				

Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru						
Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru						
Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgil salwch						
Wedi gadael yr ardal						
Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod						
Swydd	3	2.2	1	1.1	10	10.8

Presenoldeb

Nid yw yn ofynnol eleni, oherwydd Covid-19 i unrhyw gorff llywodraethol adrodd ar bresenoldeb.

Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth. Mae ffensys diogelu newydd o gwmpas yr ysgol ers Medi 2018 sy'n sicrhau diogelwch y safle ac rydym yn gobeithio symud ymlaen i roi ffensys o gwmpas rhai o ffiniau'r ysgol yn ogystal.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliaid yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.

Prosbectws yr ysgol

Caiff Prosbectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 7, 8, 9, 10 ac 11 yn astudio pob pwnc, ac eithrio'r Saesneg, trwy gyfrwng y Gymraeg. O ran Gwyddoniaeth ym mlwyddyn 12 a 13 mae dewis iaith yn bodoli ond gyda sefydlu'r polisi iaith presennol yn flynyddol bellach bydd hyn yn newid gyda'r blwyddyn 7, 8, 9, 10 ac 11 presennol yn parhau gyda'i haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob disgybl yn CA3, CA4 a CA5 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n

credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Anogir disgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Mae'r ysgol wedi gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continwmm ieithyddol. Canlyniad hynny yw bod yr ysgol ers Medi 2016 wedi newid categori iaith o 2A i CC. Golyga hynny, bod pob pwnc oni bai am y Saesneg yn cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisïau

Adolygydd holl bolisïau yr ysgol yn ystod y flwyddyn.

Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2019-20

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwricwlwm gwahaniaethol, fe fydd yna adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddsbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynnir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mr Dyfed James, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol.

Mrs Anne Loughran sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 83 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn.

Blwyddyn	Datganiadau	Gweithredu yn yr ysgol a mwy	Gweithredu yn yr ysgol
7		4	22
8	1	2	13
9	3	4	5
10	1	1	5
11	1	6	5
12	2		2
13	1		1
Cyfanswm	9	17	57

Crëwyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw brofion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darllynydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darllynydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg iaith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys gweithdy Literacy Toolbox, Llythrennau a Synau, Touch Type a chymorth unigolion.

Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Mae pedwar aelod o staff wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Euryn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Mr Jonathan Thomas a Mrs Rhian Carruthers, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuenctid, swyddog presenoldeb, iechyd a lles, nyrs iechyd yr ysgol a chwmselyddion. Gwelwyd 29 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Miss Alex Davies eleni, sy'n sylweddol is na'r arfer a hynny oherwydd y cyfnod clo. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd diogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallent weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir lluo o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawns greadigol, canwio, rafftio, rownderi, sgïo, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foeli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolyn yn cyrraedd safon genedlaethol. Bellach mae gan yr ysgol gyngor Chwaraeon a etholwyd trwy bleidlais gan y disgyblion. Rôl y Cyngor Chwaraeon fydd arwain a chynghori'r UDA ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r maes. Yn anffodus, ers diwedd Mawrth ni lwyddwyd i wireddu llawer o'n gobeithion o ran datblygu chwaraeon.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir lluo o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Er bod eleni yn wahanol iawn i'r arfer bu'r pwyllgor yn brysur hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo a llwyddwyd i gasglu £5,022.

Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy lenwi holiadur a thrwy waith y Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Rydym wedi gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur trwy gyflogi glanhawraig ar safle yn ystod y dydd i ganolbwyntio ar lanhau'r toiledau.

Nodiadau ar Ysgolion Iach


Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnoogaeth y gwasanaeth Arlwygo i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach yn anelu at gyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach.

Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai prwpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Holiadur i Rieni

Yn ystod ein nosweithiau rhieni rydym yn gofyn i rieni lenwi holiadur a ddsberthir ar y noson honno. Yn anffodus eleni, ni chynhaliwyd sawl un o'n nosweithiau rhieni ac, felly, canlyniadau holiadur 2018-19 sydd isod.



1. Ar y cyfan, rwy'n fodlon ar yr Ysgol
2. Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol.
3. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
4. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
5. Mae safon yr addysgu yn dda.
6. Mae'r staff yn disgwyl i'm plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau.
7. Mae'r gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei gael yn yr ysgol.
8. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg ac â pharch.
9. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
10. Mae fy mhlentyn yn cael ei annog i fod yn iach a chymryd ymarfer corff yn rheolaidd.
11. Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
12. Mae'r ysgol yn gwrandao ar lais fy mhlentyn.
13. Mae fy mhlentyn yn derbyn cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
14. Rwy'n cael digon o wybodaeth am gynnydd fy mhlentyn.
15. Rwy'n teimlo'n gyfforddus am fynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
16. Rwy'n deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
17. Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i aeddfedu a chymryd cyfrifoldeb.
18. Mae fy mhlentyn yn barod i symud ymlaen i'r ysgol neu goleg nesaf neu i mewn i gyflogaeth.
19. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
20. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda.

Rhestr o deithiau, digwyddiadau a llwyddiannau 2019-20

Medi 2019 – Tachwedd 2019

Blwyddyn 7 yn Llangrannog – treuliyd tridiau yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog gan ddisgyblion blwyddyn 7 a'u hathrawon ar ddiwedd mis Medi. Dyma gyfle arbennig i'r disgyblion i ddod i adnabod ei gilydd a chydweithio.

Ymweliad blwyddyn 8 a Chadeirlan Tŷ Ddewi – Bore dydd Iau, 27ain o Fedi aeth blwyddyn 8 ar daith Astudiaethau Crefyddol i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn Sir Benfro. Cawsant eu croesawu gan Mrs Janet Ingram a oedd wedi trefnu gwahanol weithgareddau o amgylch y Gadeirlan.

Taith Dylunio a Thechnoleg bl.12 a 13 – bu'r disgyblion yn ymweld ag arddangosfa Grand Designs yn yr NEC yn Birmingham ar yr 11eg o Hydref.

Cyfraniadau – Ym mis Mehefin rhoddwyd y cyfraniadau canlynol gan y Pwyllgor Dyngarol – £300 Breakthro Caerfyrddin; £300 Kidney Wales; £300 Ty Hafan; £1,013.29 Macmillan.

Prif swyddogion 2019-2020 – Llongyfarchiadau i Celyn Yate a Mabon Evans ar gael eu hethol yn brif fachgen a phrif merch. Yn eu cynorthwyo bydd Ania Quiros, Alaw Evans, Mathew Griffiths a Harri Griffiths.

Aelodau Cyngor Ysgol 2019-2020 – Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn aelodau o'r cyngor ysgol am eleni. Blwyddyn 7 – Betsan Jones a Tomos Axford; Blwyddyn 8 – Rosie Davies a Dion James; Blwyddyn 9 – Mati Morgan a Steffan Huw Davies; Blwyddyn 10 – Bethan Hutcheon a Richard Phillips; Blwyddyn 11 – Elen Davies a Sion Jones; Blwyddyn 12 – Caitlin Mackay, Catrin Owen, CAi Phillips, Trystan Davies; Blwyddyn 13 – Celyn Yate, Mabon Evans, Emily Williams, Mali Hughes, Harry Williams-Potter. Dymuniadau gorau iddynt am y flwyddyn.

Gweithdy Only Men Aloud – Braf oedd cael croesawu y gweithdy hwn i'r ysgol ar brynawn Gwener, Medi'r 20fed lle y cafodd criw o fechgyn hŷn yr ysgol gyfle ardderchog i ymarfer eu sgiliau rhythmig.

Cyfansoddwr Ifanc Dyfed 2019/20 – Cafodd criw bl.10 – 13 Cerdd gyfle i fynychu gweithdy yn yr ysgol ar Fedi'r 20fed.

Diwrnod Heddwch Rhyngwladol – dydd Sadwrn, Medi'r 21ain – Un o'r digwyddiadau pwysicaf yng nghalendr Tref Caerfyrddin yw codi baner heddwch ar Ddiwrnod Heddwch y Byd. Eleni bu ensemble lleisiol yr ysgol yn perfformio ar y Clos Mawr adeg y seremoni hon a braf oedd cael y cyfle i wrando ar un o ddisgyblion yr ysgol, Lois Campbell, yn annerch y gynulleidfa.

Bore Coffi MacMillan – Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobol i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith. Trefnwyd y Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Iau, Medi 26ain ar gyfer y staff a'r chweched. Roedd y byrddau yn frith o gacennau blasus yn barod ar gyfer y bore. Cafwyd cefnogaeth arbennig i'r ymdrech ac roedd yr ystafell llawn bwrlwm drwy'r amser egwyl estynedig. Gyda thâl mynediad yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus, ynghyd â raffl codwyd y swm anhygoel o £1,013.29. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaeth Diolchgarwch – I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol yng nghwmni y Parchedig Beti Wyn James ar y 23ain o Hydref.

Banc Bwyd Gaerfyrddin – Yn dilyn ein gwasanaeth diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin. Dosbarthwyd y cyfraniadau i'r banc bwyd gan ddisgyblion yr ysgol ar fore'r gwasanaeth.

Wythnos Fiolegol – trefnwyd wythnos o weithgareddau biolegol yn ystod wythnos Hydref y 7fed gyda gweithgareddau amrywiol a ddaeth i uchafbwynt gyda'r 'Bake-off' ar ddydd Gwener.

Noson Agored 2019 – Unwaith eto eleni, agorodd Ysgol Bro Myrddin ei drysau i'r cyhoedd ar nos Iau yr 17eg o Hydref. Roedd bwrlwm a gweithgareddau amrywiol ym mhob adran o amgylch yr ysgol.

Gwobrau arloesedd Dylunio a Thechnoleg 2019 – Yn flynyddol mae CBAC yn gwobrwyo y prosiectau Dylunio a Thechnoleg gorau, mwyaf arloesol ar draws Cymru gyfan. Mae Bro Myrddin wedi bod yn ffodus i dderbyn enwebiadau

yn y gorffennol ac eleni cafodd 8 o ddisgyblion yr ysgol eu dewis. Derbyniwyd tystysgrifau am safon rhagorol gwaith y canlynol: TGAU – Bedwyr Thomas, Steffan Howells, Laurie Thomas; Lefel UG – Harri Griffiths, Alisha Davies; Lefel Uwch – Cian Woodward, Harri Jones, Iestyn McAvoy

Casglu arian – Llongyfarchiadau i Lowri Jones o fl.11 a lwyddodd i godi £6,104 ar gyfer Gwasanaeth Nam Synhwyrâu Caerfyrddin trwy gynnal te prynhawn yn neuadd Bronwydd yn ystod yr haf.

Chwarae dros Gymru – Teithiodd Emily Thomas o flwyddyn 11 i gynrychioli tîm pêl-droed Merched Cymru dan 17 yn Nhrefalon Ewro UEFA yn Nenmarc o'r 20fed i'r 28ain o Fedi. Cafodd gyfle i chwarae yn erbyn timoedd Denmarc, Rwsia a Macedonia.

Pencampwraig Gymnasteg – Llongyfarchiadau i Marged Jones o flwyddyn 7 a enillodd bencampwriaeth gymnasteg merched 11-12 oed Cymru yng Nghaerdydd.

Tynnu rhaff dros Gymru – Llongyfarchiadau i Sion Edwards o flwyddyn 10 a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Tynnu Rhaff Cymru yn ddiweddar.

Sgiwr y Flwyddyn – Llongyfarchiadau i Tom Butterworth o flwyddyn 12 ar gael ei enwebu yn Sgiwr y Flwyddyn gan Snow Sport Cymru.

Pencampwriaethau Prydeinig – Enillodd Morgan Lloyd o flwyddyn 10 y wobr gyntaf yn ei grŵp oedran ym Mhencampwriaethau Prydeinig y treialon amser ac enillodd Dafydd Jones, hefyd o flwyddyn 10 y fedal Efydd yn ras 1500m y Steeplechase ym Mhencampwriaeth Prydain. Hwyllo oedd camp Aled Llewellyn-Jones o flwyddyn 12 a fu'n cystadlu ym mhencampwriaethau hwyllo ieuencid y byd yn Ngwlad Pwyl, ym mhencampwriaeth genedlaethol ac agored Prydain ym Mhwillheli ac yn y bencampwriaeth Ewropeaidd yn yr Eidal. Cyflawnodd y cyflymder cychod cyflymaf ym mhencampwriaethau Prydain.

Llwyddiant ar y maes criced – Llongyfarchiadau i Gruffudd Owen, Blwyddyn 8 sydd wedi derbyn gwahoddiad i ailymuno ag Academi Iau Clwb Criced Morgannwg yn 2019-20. Fe'i ddewiswyd ar sail ei berfformiadau unigol gyda'r bat a'r menig ynghyd â'i gaptiniaeth dros dîmau Cymru dan 12 a than 13 yn ystod yr haf.

Cystadleuaeth 'dressage' – Llongyfarchiadau i Elin Harries o fl.9 ar ddod yn ail dros Gymru ym mhencampwriaeth dressage yn Nyfnaint.

Gemau – Chwaraewyd 37 o gemau eleni eisoes. Enillwyd 5 gêm rygbi, 4 gêm bêl-droed, 9 gêm bêl-rwyd a 3 gêm hoci; collwyd 2 gêm rygbi a pêl-droed, 5 gêm pêl-rwyd a 3 gêm hoci a chafwyd 2 gêm gyfartal rygbi a 3 gêm gyfartal pêl-rwyd.

Tachwedd 2019 – Chwefror 2020

Taith yr Adran Gerdd i weld Mary Poppins yn Llundain Ionawr 23ain 2020 – Ers blynyddoedd bellach, mae'r Adran Gerdd wedi bod yn trefnu taith i ddisgyblion i'r ysgol i'r West End i fwynhau bwrlwm dawnsio a chanu y theatr. Eleni, ar ddydd Iau y 23ain teithiodd 150 o ddisgyblion i wyllo Mary Poppins yn Theatr y Prince Edward.

Gweithdy Cerdd Mr Clive Edwards Ionawr 9fed 2020 – Ar ddydd Iau, y 9fed o Ionawr, cafodd disgyblion Blwyddyn 8 weithdy gyda "Bongo Clive".

Cofio'r Holocaust – Ar ddydd Gwener, Chwefror 28ain aeth cynrychiolwyr o'r ysgol i ddigwyddiad Cofio'r Holocaust yn Neuadd y Gwendraeth.

Siaradwr Gwadd – Bu Jonathan Edwards Plaid Cymru yn siarad gyda disgyblion Gwleidyddiaeth.

Rhaglen Prynhawn Da – Bu Lowri Jones bl.11 ar raglen Prynhawn Da yn trafod nam gweld.

Eisteddfod Ysgol – Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod ysgol eleni: Tarian gwaith cartref: Hengwrt, Tarian cystadlaethau llwyfan: Peniarth, Cwpan y Côr: Peniarth, Tarian dawnsio gwerin: Llwydiarth, Tarian y Llys buddugol: Hengwrt.

Llongyfarchiadau i bawb. Diolch i'r rhai fu'n hyfforddi ac i Elin Llwyd am feirniadu. Enillwyr y gwobrau llenyddol; Y Gadair Gymraeg – Alaw Evans, Y Gadair Saesneg – Aeron England, Y Goron Gymraeg – Bryn Richards, Y Goron Saesneg – Bryn Peters.

Sunday Times – Llongyfarchiadau i'r ysgol ar gyrraedd y pedwerydd safle yn rhestr ysgolion gorau Cymru y Sunday Times 2019.

Pwyllgor Dyngarol – cyflwynwyd sic o £300 i Shelter Cymru.

Llwyddiant – Llongyfarchiadau i Alaw Evans a Megan Evans ar gael eu dewis i Gôr Cenedlaethol Ieuencid Cymru ac i Catrin Owen ar gael ei dewis i Gerddorfa Cenedlaethol Ieuencid Cymru.

Chwarteri cwpan ysgolion Cymru – Llongyfarchiadau i 3 tîm o'r ysgol sydd wedi cyrraedd chwarteri cwpan ysgolion Cymru – tîm rygbi hŷn, tîm rygbi bl.8 a thîm merched pêl-droed bl.9 a 10.

Gymnasteg – Llongyfarchiadau i Amelia Dawber o fl.10 a Marged Jones o fl.7 a gynrychiolodd yr ysgol gyda thîm gymnasteg Brienne yn rowndiau Dyfed. Llongyfarchiadau i Marged Jones bl.7 ar ennill pencampwriaeth gymnasteg ysgolion Dyfed.

Gemau – Chwaraewyd 72 o gemau ers mis Tachwedd. Enillwyd 10 gêm rygbi, 7 gêm bêl-droed, 20 gêm bêl-rwyd a 9 gêm hoci; collwyd 4 gêm rygbi, 3 gêm bêl-droed, 9 gêm pêl-rwyd a 3 gêm hoci a chafwyd 1 gêm gyfartal pêl-rwyd a 4 gêm gyfartal o hoci.

Gwobr Dug Caeredin – Llongyfarchiadau i bron i 90 o ddisgyblion yr ysgol ar ennill eu gwobr efydd Dug Caeredin. Cyflwynwyd eu tystysgrifau iddynt mewn seremoni arbennig yn ysgol QEH.

Rygbi – Llongyfarchiadau i dîm rygbi blwyddyn 8 yr ysgol ar gyrraedd 16 olaf cwpan rygbi ysgolion Cymru yn dilyn eu buddugoliaeth yn erbyn ysgol Greenhill o 60-0. Llongyfarchiadau i dîm rygbi hŷn yr ysgol ar gyrraedd 16 olaf cwpan rygbi ysgolion Cymru yn dilyn eu buddugoliaeth yn erbyn ysgol Penweddig o 52-0. Llwyddiant i'r tîm 1af am guro Coleg Castellnedd (cwpan Cymru) o 55-12.

Actif Sir Gâr – Llongyfarchiadau i dimoedd pêl-droed y merched, Betsan Thomas a Frank Morgan a gafodd eu henwebu mewn categorïau gwahanol ar gyfer gwobrau chwaraeon Actif Sir Gâr mewn seremonïau arbennig yn Theatr y Ffwrnes Llanelli nos Wener 31ain o Ionawr

Athletau – Llongyfarchiadau i Sophia Reid-Thomas bl.9 ar ddod yn Bencampwraig Cymru yng nghystadlaeth 300m atletau dan 17

Cyngor Tref Caerfyrddin – Llongyfarchiadau i Emily Thomas ar ennill y benyw gorau yn yr adran ganolradd o dan 16 mewn pêl-droed a Frank Morgan ar ennill y gwryw gorau yn yr adran ganolradd o dan 16 mewn atletau gyda chyngor tref Caerfyrddin.

Mawrth 2020 – Gorffennaf 2020

Taith sgïo – Yn anffodus, canslwyd y daith sgïo oedd i fod mynd adeg y Pasg. Bydd y rhieni yn cael ad-daliad llawn.

Taith Paris – Yn anffodus, bu'n rhaid canslo taith Paris oherwydd nid oedd 85 o'r rhieni wedi talu'n llawn. Yn sgîl hynny, bu'n rhaid i bob rhiant gollir blaendal o 60 punt. Mae'r ad-daliadau (heblaw y blaendal) wedi eu talu i'r rhieni.

Rhaglen Prynhawn Da – Bu dau ddisgybl o'r chweched ar y rhaglen yn hysbysu gwaith y pwyllgor dyngarol a'r her a gynhaliwyd dros benwythnos y 6ed o Fehefin i godi arian i ysbyty Glangwili.

Noson wobrwyo – Digwyddiad blynyddol yng nghalendr yr ysgol erbyn hyn yw'r noson wobrwyo ond yn anffodus eleni bu'n rhaid ei ganslo. Er hynny roedd y gwobrwyon eisoes wedi eu dyfarnu:

Gwobr Bro Myrddin am lwyddiant academaidd yn yr arholiadau Safon Uwch – *Efa Jones, Manon Dafydd Jones a Cian Woodward*

Gwobr Goffa Beti Hughes am lwyddiant academiaidd yn Safon Uwch a chyfraniad i fywyd diwylliannol yr Ysgol – *Annell Dyfri a Harri Jones*

Tlws Gareth Evans am gyfraniad i fywyd diwylliannol yr ysgol – *Catrin Lewis*

Tlws Gareth Evans am ymdrech gyson ym mlwyddyn 10/11 neu 12/13 – *Iestyn McAvoy a Trystan Davies*

Gwobr St Peter's Players am gyfraniad i weithgareddau drama – *Catrin Lewis*

Tlws Coffa Megan a Myfanwy am waith creadigol o safon uchel – *Cerys Bennett*

Tlws Coffa Rhian Denby Jones am yr ymdrech orau yn TGAU Hanes – *Lauren Mote a Lucy Jones*

Tlws Yr Adran Fusnes – *Cadi Evans a Sioned Raymond*

Tlws Hugh Griffiths am yr ymdrech orau yn TGAU Gwyddoniaeth – *Mia Haf Rees*

Gwobr Ieithoedd Tramor Modern am y perfformiad gorau mewn Ieithoedd Tramor Modern ym mlwyddyn 11 neu 13 – *Megan Tyler*

Gwobr Disgybl y Disgyblion i'r disgybl greodd yr argraff fwyaf ar ei gyd-ddisgyblion – *Cai Phillips*

Gwobr Capel Y Priorddy am ymdrech arbennig mewn Addysg Grefyddol – *Gethin Hopley*. Mae hon yn wobwr newydd ar gyfer eleni yn rhoddedig gan Gapel y Priorddy a diolch iddynt am eu haelioni

Tlws Andrew Rees i gerddor neu gerddorion gorau'r ysgol – *Andrea Chang Jones*

Tlws yr Adran Gerdd am y perfformiad gorau yn TGAU Cerddoriaeth – *Catrin Owen*

Tlws Coffa Margaret Morris am y perfformiad gorau yn Addysg Gorfforol gan ddisgybl yn ml.13 – *Kate Howell*

Tlws yr Adran Addysg Gorfforol am y perfformiad gorau yn TGAU Addysg Gorfforol – *Rachel Fice*

Tlws Elin Ruth Jenkins am y perfformiad gorau mewn pêl-rwyd – *Leah Thomas*

Tlws Non Jenkins am y perfformiad gorau mewn nofio – *Nia Conlon / Deryn Cressey-Rodgers*

Tlws Peter Hughes Griffiths am ei wasanaeth i bêl-droed o fewn yr ysgol – *Mabon Evans*

Tlws Emlyn Schiavone am wasanaeth i rygbi o fewn yr ysgol – *Harri Jones*

Tlws Rheon ac Elliw James am gyfraniad i Athletau yn yr ysgol – *Eva Edwards*

Pwyllgor Dyngarol – trwy gyfarfodydd Zoom fe lwyddodd y Pwyllgor Dyngarol i drefnu'r her codi arian i ysbyty Glangwili – Her Yr Arfordir i'r Awyr – Caer i Gas-gwent mewn crysau Cymru. Y syniad oedd bod disgyblion y chweched a staff yn cerdded neu'n rhedeg neu'n seiclo 780 o filltiroedd rhyngddynt dros dridiau Mehefin 5/6/7 a'r arian i gyd yn mynd i ysbyty Glangwili. Llwyddwyd i godi £2,409.27.

Côr staff – braf oedd gweld côr rhithiol y staff ar wefannau cymdeithasol yn canu Eryr Pengwern.

An Inspector Calls – ychydig o ddyddiau cyn y cyfyngiadau teithiodd yr adran Saesneg gyda chriw o flwyddyn 10 i Gaerdydd i wyluo An Inspector Calls.

Prince's Trust – bu criw o ddisgyblion blwyddyn 11 y Prince's Trust ar ymweliad i Heatherton ychydig o ddyddiau cyn y cyfyngiadau.

Ymgyrch Bags2School – Diolch i'n rhieni a chyfeillion a fu wrthi'n casglu dillad a gwastraff meddal dros y Nadolig. Fe ddaeth y casgliad a gwerth £280 i'r ysgol. Diolch yn fawr.

Diwrnod gwisg ein hunain – Diolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant y diwrnod a welodd yr ysgol yn codi £1,000 i'w rannu rhwng Canolfan Cancr Felindre ac apêl yr Urdd, Sir Gâr.

Dylunio a Thechnoleg – Daeth dwy wobwr i law'r adran Dylunio Technoleg drwy'r gystadleuaeth Fformiwla 1, gan gipio gwobr Sêr y dyfodol yn ogystal â Chyflwynwyr gorau. Da iawn chi.

Gemau cyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru – Yn anffodus, er i 3 tîm o'r ysgol gyrraedd rowndiau cyn-derfynol cwpan ysgolion Cymru – tîm rygbi hŷn, tîm rygbi bl.8 a thîm merched pêl-droed bl.9 a 10, ni chynhaliwyd y rowndiau hynny.

Gwobr Dug Caeredin – Llongyfarchiadau i 66 o ddisgyblion blwyddyn 10 a gafodd eu tystysgrifau efydd Gwobr Dug Caeredin mewn seremoni arbennig a drefnwyd gan Gyngor Sir Gar ar y 13eg o Chwefror. Diolch i'r Adran Chwaraeon am ei gwaith gwirfoddol yn trefnu'r cymhwyster hwn yn flynyddol. Yn anffodus, bu'n rhaid canslo holl drefniadau gwobr efydd Dug Caeredin am y flwyddyn nesaf. Derbyniwyd ad-daliad gan bob un o'r rhieni oedd eisoes wedi talu am ddisgyblion blwyddyn 9.